



Rhaglenni
Gradd i
Ôl-raddedigion

www.cardiff.ac.uk/cy/architecture



Welsh School of Architecture
Ysgol Pensaernïaeth Cymru

Byddwn ni'n eich helpu chi i feithrin agwedd ymchwilgar a'r ymwybyddiaeth feirniadol y bydd eu hangen i fynd i'r afael â phroblemau cymhleth yn yr amgylchedd adeiledig. Ein nod yw sicrhau bod gennych chi'r sgiliau i luniadu ac adeiladu drwy gydol eich gyrfa yn y dyfodol, yn ogystal â meithrin cysylltiad parhaol â'r Ysgol, y Brifysgol a dinas hyfryd Caerdydd.

Ysgol Pensaernïaeth Cymru Prifysgol Caerdydd

Adeilad Bute, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Caerdydd CF10 3NB

Ffôn: +44 (0) 29 2087 4430 **Ebost:** Architectadmissions@caerdydd.ac.uk
www.cardiff.ac.uk/cy/architecture

[linkedin.com/school/welsh-school-of-architecture-cardiff-university](https://www.linkedin.com/school/welsh-school-of-architecture-cardiff-university)

twitter.com/WSofArchi

facebook.com/welshschoolofarchitecture

instagram.com/WSofArchi

Rydyn ni o'r farn bod angen astudio ac ymchwil arbenigol i lywio'r cynlluniau sy'n gwneud y byd yn well. Mae ein graddedigion yn cynnig manteision i'r byd trwy'r wybodaeth a'r medrau y maen nhw wedi'u dysgu yn yr Ysgol.

Byddan nhw'n ein gadael gydag ymagwedd chwilfrydig a'r gallu i fynd i'r afael â phroblemau cymhleth yn yr amgylchedd adeiledig, ynghyd ag ymagwedd gyfunol at y pwnc o ganlyniad i drafodaethau bywiog a chyfleoedd i feddwl yn feirniadol. Rydyn ni'n ceisio rhoi cysylltiad cadarn iddynt â'r Ysgol, y Brifysgol a dinas Caerdydd.



Cynnwys

01 Croeso

03 Cyflwyno Ysgol Pensaernïaeth Cymru

05 Rhaglenni ôl-raddedig a addysgir

07 MA Dylunio Pensaernïol

09 MA Dylunio Trefol

11 Gradd Meistr Gweinyddu Dylunio

13 MSc Dulliau Cyfrifiadurol Pensaernïaeth

15 MSc Dylunio Adeiladau'n Amgylcheddol

17 MSc Cadwraeth Adeiladau Cynaliadwy

19. MSc Mega-adeiladau Cynaliadwy

21 Dip.Ôl-radd Pensaernïaeth Ymarfer Proffesiynol

23 Rhaglenni ymchwil ôl-raddedig

25 Ein cyfleusterau

27 Byw yng Nghaerdydd

29 Meini prawf derbyn

Ymwadiad:

Bydd y llyfryn hwn yn rhoi rhagor o fanylion i chi am ein rhaglenni. Rydyn ni'n gobeithio y byddant yn rhoi blas a mwy i chi o'r hyn sydd gennym i'w gynnig. Fodd bynnag, rydym ni bob amser yn barod i ateb unrhyw gwestiwn sydd gennych, drwy'r post, dros y ffôn neu drwy e-bost, neu pan ddewch i ymweld â Chaerdydd. Mae'r manylion cyswllt priodol ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn berthnasol i gylch derbyn Mynediad 2021 ac yn gywir pan aeth i'r wasg ym mis Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r prospectws hwn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan [www.caerdydd.ac.uk] cyn cyflwyno cais rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma. Lle bydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'n gwefan, rhowch flaenoriaeth i gynnwys y wefan, sy'n cynrychioli'r modd yr ydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar eich cyfer.

Bydd unrhyw le a gynigir i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd yn amodol ar [delerau ac amodau](#), sydd i'w gweld ar ein gwefan. Fe'ch cynghorir i'w darllen cyn gwneud cais. Mae'r telerau a'r amodau yn nodi, er enghraifft, pryd y gallen ni wneud newidiadau i'r cwrs o'ch dewis neu i'r rheoliadau i fyfyrwyr. Felly, mae'n bwysig eich bod yn eu darllen ac yn eu deall.

Os na allwch gael gafael ar wybodaeth ar-lein, cysylltwch â ni:

E-bost: Architectadmissions@caerdydd.ac.uk

Ffôn: +44 (0) 29 2087 4455

Eich gradd: Mae myfyrwyr a dderbynnir i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd gan Brifysgol Caerdydd.

Croeso

Mae Ysgol Pensaernïaeth Cymru yn cyfuno traddodiad cryf o addysg bensaernïol ag enw da yn rhyngwladol am ragoriaeth ymchwil.



Yn yr Ysgol, rydym yn ymfalchïo yn ein hamgylchedd bywiog a chydweithredol ar gyfer addysgu, dysgu ac ymchwil.

WeRydym wedi'n lleoli mewn adeilad neoglasurol mawr yng nghanol campws Prifysgol Caerdydd o'r enw 'Adeilad Bute' sydd wedi bod yn gartref i ni ers sefydlu'r Ysgol dros gan mlynedd yn ôl. Wedi'i gynllunio rhwng 1911 a 1916 gan y penseiri Percy Thomas ac Ivor Davies, mae wedi cael ei adnewyddu'n sylweddol yn ddiweddar, sy'n cynnwys amrywiaeth o fannau ac adnoddau newydd ar gyfer addysgu ac ymchwil. Mae'r rhain yn cynnwys parthau pwrpasol ar gyfer crefft a saernïo digidol, darlithfa glyfar, 'Stiwid Hybrid', 'Labordy Byw' (lle gall academyddion, cymunedau a diwydiannau weithio ar brosiectau cydweithredol) a phrif Gofod Arddangos ar gyfer cynnal sioeau gradd, darlithoedd, symposia a chynadleddau. Drwy'r broses o ymgorffori'r adnoddau newydd hyn, mae'r adeilad wedi dod yn arwydd o gynaliadwydd drwy aildddefnyddio adeiladau hanesyddol yn addasol, ac o werthoedd yr ysgol yn y termau hyn.

Mae cymunedau ein myfyrwyr a'n staff yn cwmpasu cefndiroedd cenedlaethol, diwylliannol a phroffesiynol amrywiol, gan greu sail gref ar gyfer dysgu gyda'n gilydd ac o'n gilydd.

Rydym yn addysgu ar lefel ôl-raddedig ers dros ddeng mlynedd ar hugain. Mae ein portffolio o Raglenni Ôl-raddedig a Addysgir yn adlewyrchu arbenigedd ymchwil ac ymarfer proffesiynol eang yr Ysgol yn ogystal â'i hymrwymiad i fynd i'r afael â heriau byd-eang a sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol drwy ddylunio a datblygu cynaliadwy.

Bydd astudio gyda ni yn unrhyw un o'n rhaglenni yn eich helpu i ddatblygu agwedd ymholi a'r ymwybyddiaeth feirniadol sydd ei hangen i fynd i'r afael â heriau cymhleth drwy'r amgylchedd adeileddig. Bydd yn rhoi'r sgiliau i chi eu defnyddio ac adeiladu arnynt drwy gydol eich gyrfa yn y dyfodol. Gobeithiwn hefyd y bydd yn meithrin ymdeimlad parhaus o gysylltiad â chymunedau'r Ysgol ac â'r Brifysgol.

Ar y tudalennau canlynol, byddwch yn cael rhagor o wybodaeth am y rhaglenni ôl-raddedig a addysgir a'r graddau ymchwil rydym yn eu cynnig. Byddwn hefyd yn eich cyflwyno i Gaerdydd, prifddinas fywiog Cymru, ac yn rhoi blas i chi o sut beth yw astudio yn y Brifysgol fel myfyrwr ôl-raddedig.

Gobeithio y byddwch yn penderfynu ymuno â ni a chyfrannu at fywyd yr ysgol. Cysylltwch â'n tiwtoriaid derbyn cyfeillgar ar bob cyfrif os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein rhaglenni, a byddant yn barod i roi cyngor ac arweiniad i chi.

Yr Athro Juliet Davis
Pennaeth yr Ysgol



Cyflwyno Ysgol Pensaernïaeth Cymru

Mae'r Ysgol yn addysgu israddedigion ac ôl-raddedigion ym maes astudiaethau pensaernïol ers ei sefydlu ym 1920.

Mae gennym enw rhagorol yn rhyngwladol fel canolfan ar gyfer ymchwil i'r amgylchedd adeiledig a dylunio. Rydyn ni ymhlith ysgolion pensaernïaeth gorau'r deyrnas ac yn safle 37 ar restr rhai gorau'r byd.

Rydyn ni'n gweld ein cyfraniad at fywyd diwylliannol Cymru trwy'r amgylchedd adeiledig yn rhan bwysig o'n hunaniaeth. Mae'r Ysgol yn ceisio ymgysylltu â materion a thueddiadau byd-eang a fydd yn trawsffurfio sefyllfa Cymru hefyd, fodd bynnag.

Mae cysylltiadau cynhyrchiol gyda ni â diwydiannau, cwmnïau a phrifysgolion ledled y byd trwy ein haddysgu a'n hymchwil. Mae pob un o'n myfyrwyr, boent rai sy'n dysgu o hirbell neu yng Nghaerdydd, yn elwa ar y cysylltiadau hynny. Rydyn ni'n elwa ar natur ryngwladol ein staff a'n myfyrwyr, sydd wedi dod â gwybodaeth a phrofiad o gyd-destunau diwylliannol a hinsoddol amryfal ynghyd, hefyd.

Mae'n myfyrwyr yn ddeniadol iawn i gyflogwyr ac, felly, mae galw mawr amdany'n nhw ledled y byd ym maes addysg uwch ac yn ein diwydiant. Yn 2017/18, roedd 96% o'r graddedigion a lenwodd holiadur am eu sefyllfa bresennol naill ai mewn swydd neu astudiaethau ychwanegol 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

Un o brif rannau ein strategaeth ddiweddaraf, **Y Ffordd Ymlaen 2018-23**, yw cenhadaeth ddinesig i ychwanegu at ein hanes o ymgysylltu llwyddiannus. Yn ogystal â hyrwyddo ymgysylltu, mae'r genhadaeth yn ehangach ei natur ac mae amrywiaeth helaeth o weithgareddau o dan ei hadain ledled y Brifysgol. Er enghraifft: annog pobl i ymgysylltu ag ymchwil ac addysgu, ymgysylltu â chymunedau ac ysgolion, annog rhagor o bobl i gymryd rhan, gwaith gwirfoddol myfyrwyr, cynladwyedd, y Gymraeg, diwylliant Cymru, iechyd, cyfoeth a lles.

*Hawlfraint Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch Cyfyngedig 2020.
All Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ddim derbyn cyfrifoldeb am unrhyw beth y gallai pobl ei awgrymu neu ei dybio yn ôl ei data.

“Dechreuais fy Rhan 1 yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru, ac nid wyf wedi edrych yn ôl ers hynny, gan barhau'n syth i Ran 2 a Rhan 3. Mwynheais fy mlynnyddoedd yn astudio yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru yn fawr ac rwy'n ddiolchgar am gael astudio mewn sefydliad pensaernïol mor uchel ei barch ac enwog. Rwyf wrth fy modd yn byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd, sydd â chymaint o atgofion hyfryd ac sy'n fy atgoffa o'r gwaith caled rwyf wedi gorfod ei dros y blynnyddoedd er mwyn cyrraedd y man lle rwyf i heddiw.”

Victoria Savage | Pensaer, Scott Brownrigg



Rhaglenni Ôl-raddedig a Addysgir

Rydyn ni'n cynnig amryw raglenni ystafell ddosbarth sy'n dangos cryfderau'r Ysgol.

Ym mhob un o'r cyrsiau hyn, byddwn ni'n ceisio trin a thrafod llawer o anawsterau presennol yr amgylchedd adeiledig megis y newid hinsoddol, iechyd a lles, effeithlonrwydd amgylcheddol hen adeiladau a rôl technoleg ynghylch trawsffurfio diwydiant y dylunio a'r adeiladu er lles economi ehangach y byd.

Nod sy'n gyffredin i'n rhaglenni i gyd yw meithrin medrau allweddol y bydd eu hangen ar fyfyrwyr a hoffai arbenigo mewn meysydd o ddiddordeb iddyn nhw er llwyddiant yn eu gyrfaedd neu'r tu allan i'r gwaith. Trwy hynny, bydd myfyrwyr yn dysgu rhagor yn ogystal â meithrin y gallu i ddysgu'n annibynnol ar flaen y gad yn eu meysydd.

Mae'n rhaglenni wedi'u llunio i fod o werth i bobl o sawl lliw a llun. Maen nhw'n gweddu i ôl-raddedigion a hoffai astudio pwnc arbenigol. At hynny, byddan nhw'n galluogi proffesiynolion sydd eisoes yn ymwneud â chynllunio, dylunio, rheoli, gwella a gwerthuso'r amgylchedd adeiledig i feithrin medrau newydd. Mae llawer o'n rhaglenni'n cynnig mwy a mwy o ddewisiadau hyblyg megis astudio'n rhan-amser ac o hirbell ac, felly, maen nhw'n addas i'r rhai a hoffai barhau i weithio wrth astudio.

Juliet Davis
Cyfarwyddwr Rhaglenni
Ôl-raddedig a addysgir



MA Dylunio Pensaernïol

Mae'r cwrs MA amser llawn hwn dros flwyddyn mewn Dylunio Pensaernïol wedi'i anelu at fyfyrwyr sy'n chwilio am raglen ôl-raddedig gyfoethog a diddorol sy'n canolbwyntio ar ddylunio, ond nad ydynt am gymhwyso'n bensaer cofrestredig yn y DU.

MA Dylunio Trefol

Nod rhaglen MA Dylunio Trefol yw galluogi ymarferwyr ac ysgolheigion i drawsnewid maes dylunio trefol trwy feddwl beirniadol ac ymarfer creadigol.

Gradd Meistr Gweinyddu Dylunio

Nod y rhaglen hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl i fyfyrwyr am agweddau rheoli a chyfreithiol dylunio, a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i weinyddu prosesau caffael gwasanaethau dylunio a phrosiectau adeiladu yn llwyddiannus.

MSc Dulliau Cyfrifiadurol Pensaernïaeth

Mae'r cwrs hwn yn mynd i'r afael â'r galw am weithwyr creadigol proffesiynol sydd â sgiliau ym meysydd TG, saernïo digidol, meddalwedd efelychu, neu'r gallu i lunio dulliau datblygu meddalwedd penodol i ddatrys problemau dylunio unigryw.

MSc Dylunio Adeiladau'n Amgylcheddol

Mae'r rhaglen hon yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu'r wybodaeth a'r gallu sydd eu hangen i ddylunio amgylcheddau iach a chyfforddus, o fewn ac o amgylch adeiladau sy'n rhoi ychydig iawn o straen ar adnoddau byd-eang.

MSc Cadwraeth Adeiladau Cynaliadwy

Nod y cwrs hwn ac arno sêl bendith IHBC (Institute of Historic Building Conservation) a Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), yw bod yn unigryw ymhlith ysgolion ym Mhrydain trwy gyfuno astudiaethau cadw treftadaeth ag agweddau cynaliadwyedd.

MSc Mega-adeiladau Cynaliadwy

Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar egwyddorion cynllunio a dylunio adeiladau enfawr yn gynaliadwy, a'i nod yw paratoi myfyrwyr ar gyfer yr heriau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â hynny.

Dip.Ôl-radd Pensaernïaeth Ymarfer Proffesiynol

Yn y rhaglen hon sy'n ymwneud â Rhan 3 RIBA, bydd myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth drylwyr o'r agweddau cyfreithiol ac economaidd ar ymarfer pensaernïol a chaffael gwaith adeiladu, a'r sgiliau perthnasol sy'n angenrheidiol ar gyfer ymarfer yn effeithiol wrth ddechrau ar yrfa ym maes pensaernïaeth.

MA Dylunio Pensaernïol

Mae'r rhaglen hon ar gyfer ôl-raddedigion sy'n chwilio am gwrs cymhleth, blaengar ac ysgogol a fydd yn ystyried amryw agweddau dylunio ac ymchwilio a'r ffordd maen nhw'n ymwneud â'i gilydd. Trwy astudio cwrs MA Dylunio Pensaernïol, gall myfyrwyr feithrin medrau a fydd yn eu galluogi i ymgymryd ag ymchwil a gwaith o safon.

Erbyn diwedd cwrs MA Dylunio Pensaernïol, bydd gan fyfyrwyr fedrau a fydd yn eu galluogi i ymgymryd ag ymchwil a gwaith o safon gan ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei wybod i ateb gofynion cymhleth.

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar dechnegau a dulliau ymchwil sy'n deillio o ddylunio i'ch helpu i ddysgu a chynnal ymchwil.

Byddwch chi'n mireinio eich medrau dylunio trwy ganolbwyntio ar y modd y gallai syniadau dylunwyr helpu i ateb anawsterau cyfredol y byd. Mae'r dull hwn yn cynnig ffordd dwys a bywiog ar gyfer archwilio a thrafod materion dylunio. Dyma pam mae pwyslais ar ddefnyddio dylunio yn ffordd o gynnal ymchwil. Mae ymchwil trwy ddylunio yn weithgaredd creadigol sy'n cyfuno dylunio ac ymchwil yn glôs fel y gallan nhw lywio ei gilydd.

Nodweddion y rhaglen:

- Mae'r rhaglen hon ar gael yn gwrs amser llawn dros flwyddyn.
- Ehangu'ch medrau yn feddyliwr dylunio arloesol a blaengar trwy lunio agenda ymchwil yn ôl egwyddorion dylunio yn eich prosiectau dylunio a'ch traethawd hir ar y pwnc.
- Dysgu o dan adain dylunwyr o fri – penseiri cyfredol sy'n cyflwyno dros 50% o'n cyrsiau ym maes dylunio.
- Mae'n berffaith i fyfyrwyr y byddai'n well gyda nhw ddysgu am ddylunio trwy ffordd fwy ymarferol neu weithredol.
- Mae amryw fodiwlau dewisol i ychwanegu at eich dysgu ym meysydd sydd o ddiddordeb i chi a meithrin medrau ymchwil pwysig yn ôl egwyddorion dylunio.

Rhagor o wybodaeth:

Dyma fanylion ychwanegol megis trefn y dosbarthiadau, gobeithion gyrfaol, ffioedd a grantiau, meini prawf derbyn a'r staff a fydd yn cynnal y rhaglen:

www.cardiff.ac.uk/cy/architecture



Byddwch chi'n trafod problemau trwy lunio a phrofi cynigion gan gyflwyno a datblygu gwybodaeth gydnabyddedig yn ôl yr angen Trwy waith prosiectau, byddwch chi'n manteisio ar ddysg o sawl maes.

Bydd myfyrwyr yn cael dewis mireinio syniadau am ddylunio mewn amryw bynciau yn ystod helaeth yr Ysgol ar gyfer ymchwil ac astudio.

Byddwch chi'n gweithio mewn grwpiau bach o'r enw 'unedau dylunio' o dan adain tiwtor profiadol ynghylch ymchwil a dylunio pensaernïol. Byddwch chi'n gweithio'n annibynnol i lunio ffordd o astudio yn ôl egwyddorion ymchwil a dylunio, hefyd. I wneud hynny, bydd rhaid pwyso a mesur tystiolaeth gan feddwl mewn modd creadigol, arbrolfod ac ailadroddol. Bydd pwyslais ar ddarganfod unigol a myfyrion personol yn broses ddysgu. Mae'r disgrifiad o unedau dylunio yn [Llawlyfr MA Dylunio Pensaernïol](#).

Dyma enghreifftiau o brosiectau ymchwil cwrs MA Dylunio Pensaernïol yn Arddangosfa 2020 yr Ysgol: <https://wsa-ondisplay.co.uk/ma-architectural-design/>



Strwythur:

Mae strwythur MA Dylunio Pensaernïol yn cwmpasu tri modiwl craidd, sy'n cael eu crynhoi fel a ganlyn:

ART701 - Ymchwil a Dylunio Pensaernïol - 60 credyd

ART703 - Dadansoddi Cynsail - 30 o gredydau

ART704 - Traethawd hir ar Ddylunio - 60 credyd

Mae MA Dylunio Pensaernïol yn cwmpasu chwe modiwl dewisol arall, fel a ganlyn:

ART102 - Pobl ac Adeiladau - 10 credyd

ART802 - Canfod Ffurfi Gyfrifiadurol - 10 credyd

ART501 - Rôl y Cadwraethwr - 20 credyd

ART502 - Offer Dehongli - 20 credyd

ART503 - Dulliau Atgyweirio - 20 credyd

ART028 - Dylunio Goddefol - 10 credyd

ART035 - Adeiladau Carbon Isel - 10 credyd

ART041 - Cysur Hinsoddol ac Ynni - 20 credyd

AR3003 - Materion Cyfoes Pensaernïaeth - 10 credyd

ART702 - Technoleg Bensaernïol 3A - 10 credyd

*Modiwlau dewisol yn amodol ar gadarnhad ar gyfer 2019/20

MA Dylunio Trefol

Ysgol Pensaernïaeth Cymru ac Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio sy'n cynnal rhaglen MA Dylunio Trefol. Nod y rhaglen hon yw galluogi ymarferwyr ac ysgolheigion i drawsnewid maes dylunio trefol trwy feddwl beirniadol ac ymarfer creadigol.

Nodweddion y rhaglen:


- Cwrs gradd amser llawn dros flwyddyn i'r rhai mae'u cefndir yn ymwneud â'r amgylchedd adeiledig megis pensaernïaeth, dylunio amgylcheddol, dylunio mewnol, pensaernïaeth tirweddau, datblygu eiddo, dylunio trefol (israddedigion) a chynllunio trefol (gan gynnwys cynllunio dinasoedd neu drefi a chefn gwlad).
- Achrediad Sefydliad Brenhinol y Syrffwyr Siartredig a chydabyddiaeth Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi (achrediad rhannol, arbenigol).
- Dysgu gyda staff academiaidd llwyddiannus iawn sy'n flaengar yng Nghaerdydd, y deyrnas a ledled y byd.
- O dan adain Ysgol Pensaernïaeth Cymru ac Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd - Yn ystod y cwrs, bydd myfyrwyr yn dysgu elfennau damcaniaethol ac ymarferol sy'n llywio prosesau dylunio trefol o ran datblygu a rheoli.
- Prif fyrdwn yr addysgu yn y stiwdio fydd llunio cynigion craff, creadigol ac ymarferol ar gyfer safleoedd go iawn, gan drin a thrafod rhai materion cyfoes o bwys ynghylch dylunio a byw mewn trefi.
- Un o fanteision hyn o raglen yw ei bod yng nghanol Caerdydd, prifddinas Cymru a labordy ardderchog ar gyfer deall dylunio trefol o achos ei natur fywiog a'r ffaith ei bod yn lle dymunol i fyw ynddo.

Mae dylunio trefol yn croesi ffiniau sawl maes megis pensaernïaeth adeiladau, pensaernïaeth tirweddau, cynllunio trefol, polisïau cyhoeddus, gwleidyddiaeth drefol, economeg, cymdeithaseg ac astudiaethau diwylliannol.

Gall graddedigion fynd yn ddylunwyr trefol neu'n broffesiynolion sy'n gysylltiedig â dylunio trefol. Mae'r mwyafrif o'r gyrfaedd hynny ym meysydd ehangach pensaernïaeth, cynllunio trefol, eiddo neu bolisïau cyhoeddus. Gallan nhw fod yn y sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol. Bydd rhai o'n graddedigion yn astudio ar gyfer graddau ymchwil uwch.

Rhagor o wybodaeth:

Dyma fanylion ychwanegol megis trefn y dosbarthiadau, gobeithion gyrfaol, ffioedd a grantiau, meini prawf derbyn a'r staff a fydd yn cynnal y rhaglen:
www.cardiff.ac.uk/cy/architecture



Strwythur:

Mae'r rhaglen yn cynnwys modiwlau yn y dosbarth a'r labordy fel a ganlyn:

DCPT771 - Meddylwyr Dylunio Trefol - 20 credyd

CPT852 - Sylfeini Dylunio Trefol - 10 credyd

CPT853 - Dulliau a Thechnegau Ymchwil - 10 credyd

CPT924 - Dadleuon Datblygu Trefol - 20 credyd

CPT910 - Stiwdio'r Hydref - 30 credyd

CPT911 - Stiwdio'r Gwanwyn - 30 credyd

CPT854 - Prosiect Dylunio yn sgîl ymchwil - 60 credyd

Gradd Meistr Gweinyddu Dylunio

Nod y rhaglen hon yw helpu myfyrwyr i wybod a deall yn drylwyr agweddau rheolaethol a chyfreithiol dylunio a meithrin y medrau hanfodol ar gyfer gweinyddu prosesau caffael gwasanaethau dylunio a phrosiectau adeiladu.

Y bwriad yw y bydd y cwrs hwn yn ateb galw cynyddol cwmnïau ymgynghorol, clientiaid a chontractwyr arbenigol am arbenigwyr rheoli dylunio. Bydd yn edrych ar bob cam codi adeilad o'r syniad gwreiddiol a'r astudiaethau dichonoldeb trwy'r adeiladu, y gorffen, y trosglwyddo a'r cyfnod wedyn gan ganolbwyntio ar anawsterau rheolwyr o ran diffinio a chyflawni nodau dylunio.

Nodweddion y rhaglen:

- Cyfuno agweddau cyfreithiol a rheoli proses caffael, gyda sylw unigryw ar agweddau dylunio.
- Wedi'i seilïo ar arbenigedd ymchwil o fri yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru ac o dan adain awdur blaenllaw ac arbenigwr yn y maes.
- Trin a thrafod pynciau sydd o ddiddordeb mawr i broffesiynolion adeiladu megis trefniadau diweddaraf caffael.
- Cyfle i astudio wrth weithio'n amser llawn; rydyn ni'n cynnig y cwrs trwy amryw ddulliau hyblyg uchel eu parch - dysgu o hirbell neu gyfuniad o wersi ar y campws ac ar y we dros 12 mis neu ddwy flynedd a hanner.
- Manteision carfan fechan, tiwtora unigol ac amrywiaeth helaeth o siaradwyr arbenigol a phynciau.
- Cymorth rhwydwaith bywiog o hen fyfyrwyr.

Mae'r rhaglen ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n amser llawn. Bydd modd astudio naill ai o hirbell trwy ddulliau rhyngweithiol ar-lein neu gyfuniad o wersi ar y campws ac ar y we.

Mae'r cwrs ar gael i broffesiynolion graddedig ym maes adeiladu a'r rhai sy'n ymwneud â chaffael a rheoli adeiladau megis clientiaid, penseiri, peirianwyr, syrfewyr, contractwyr dylunio/adeiladu a chontractwyr arbenigol. Mae disgwyl y bydd digon o brofiad gyda nhw yn y byd diwydiannol, yn ogystal â chymhwyster sylfaenol mewn maes cysylltiedig. Bydd cwblhau'r cwrs hwn yn ehangu cyfleoedd gyrfaol trwy alluogi proffesiynolion adeiladu cymwysedig i feithrin arbenigedd ym maes rheoli dylunio.


Rhagor o wybodaeth:

Dyma fanylion ychwanegol megis dulliau addysgu, gobeithion gyrfaol, ffioedd a grantiau, meini prawf derbyn a'r staff a fydd yn cynnal y rhaglen:

www.cardiff.ac.uk/cy/architecture

Cewch chi anfon ymholiadau at Arweinydd y Rhaglen, hefyd:

lupton@caerdydd.ac.uk



Strwythur:

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys chwe modiwl 20 credyd a thraethawd hir.

ART207 - Cyd-destun y Diwydiant - 20 credyd

ART209 - Gwasanaethau Proffesiynol - 20 credyd

ART208 - Contractau Adeiladu - 20 credyd

ART211 - Cyflawni Dylunio - 20 credyd

ART212 - Cyflawni Prosiect - 20 credyd

ART213 - Caffael Rhyngwladol - 20 credyd

ART214 - Traethawd Hir - 60 credyd

MSc Dulliau Cyfrifiadurol Pensaernïaeth

Mae'r cwrs hwn yn ateb y galw am weithwyr creadigol proffesiynol sydd â sgiliau ym meysydd TG, saernïo digidol, meddalwedd efelychu, neu'r gallu i greu dulliau llunio meddalwedd penodol i ddatrys problemau dylunio unigryw.

Bydd ein dull amlddisgyblaethol yn rhoi gwybodaeth a sgiliau i fyfyrwyr fydd yn eu galluogi i ganfod dulliau cyfrifiadurol arloesol i'w defnyddio yn y diwydiannau creadigol a dylunio.

Mae'r rhaglen yn addas ar gyfer graddedigion pensaernïaeth, yr amgylchedd adeiledig, peirianeg sifil a pheirianeg bensaernïol neu broffesiynolion a hoffai feithrin arbenigedd dulliau cyfrifiadurol ym maes pensaernïaeth.

Rhagor o wybodaeth:

Dyma fanylion ychwanegol megis trefn y dosbarthiadau, gobeithion gyrfaol, ffioedd a grantiau, meini prawf derbyn a'r staff a fydd yn cynnal y rhaglen:

www.cardiff.ac.uk/cy/architecture

Nodweddion y rhaglen:

- Cwrs amser llawn dros flwyddyn neu gws rhan-amser dros ddwy flynedd.
- Elwa ar arbenigedd amlddisgyblaethol staff ymchwil ysgolion Pensaernïaeth, Cyfrifiadureg a Pheirianeg Prifysgol Caerdydd.
- Dysgu dulliau dylunio algorithmig arloesol ym maes pensaernïaeth.
- Datblygu'ch offer digidol eich hun trwy raglennu a sgrïptio gweledol.
- Cael profiad o ddefnyddio offer diweddaraf llunio digidol, gan gynnwys braich robotaidd diwydiannol mawr.
- Bod yn rhan o dîm amlddisgyblaethol sy'n adlewyrchu gwaith proffesiynol.
- Addasu'r dysgu yn ôl eich diddordebau a'ch anghenion a meithrin arbenigedd trwy fodiwlau dewisol a phrosiect ymchwil y bydd myfyrwyr yn ei arwain.



Strwythur:

Bydd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn modiwlau craidd sy'n cyflwyno cysyniadau sylfaenol o ddulliau cyfrifiadurol a chyfres o fodiwlau uwch a fydd yn fodd o arbenigo mewn maes penodol. Mae'r rhaglen yn diweddgu gyda thraethawd hir ynghyd â thraethawd myfyrïol.

ART801 - Cyflwyno Modelu 3D a Dylunio Paramedrig - 10 credyd

ART802 - Dod o hyd i Ffurf Gyfrifiadurol - 20 credyd

ART803 - Syniadau Dylunio Algorithmig - 30 credyd

ART805 - Paratoi ar gyfer Ymchwil - 10 credyd

CMT115 - Python ar gyfer Cyfrifiannu - 20 credyd

ART042 - Ymchwilio i'r Amgylchedd Adeiledig - 10 credyd*

ART806 - Traethawd Hir: Dulliau Cyfrifiadurol Pensaernïaeth - 60 credyd

Modiwlau dewisol:

ART035 - Adeiladau Carbon Isel - 10 credyd

ART042 - Ymchwilio i'r Amgylchedd Adeiledig - 10 credyd

CMT218 - Delweddu Data - 20 credyd

ENT570 - Dynameg - 10 credyd

ENT768 - Modelu Gwybodaeth am Adeiladau a Seilwaith - 20 credyd



MSc Dylunio Adeiladau'n Amgylcheddol

(Lleol a dysgu o hirbell)

Mae'r rhaglen hon yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu'r wybodaeth a'r gallu sydd eu hangen i ddylunio amgylcheddau iach a chyfforddus mewn adeiladau sy'n rhoi ychydig iawn o straen ar adnoddau byd-eang ac o'u hamgylch.

Bydd y rhaglen hon yn paratoi myfyrwyr ar gyfer defnyddio arbenigedd dylunio amgylcheddol yn rhai o rolau tîm dylunio adeiladau (yn ôl natur eu graddau gwreiddiol). Bydd yn eu helpu i ymaddasu yn ôl gofynion cyfnewidiol hefyd gan fod mwy a mwy o bobl a llywodraethau o blaid polisïau cynladwyedd ledled y byd.



Nodweddion y rhaglen:

- Cwrs amser llawn dros flwyddyn, cwrs rhan-amser dros ddwy flynedd a chwrs dysgu o hirbell dros 12 mis, dwy neu dair blynedd.
- Achrediad Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu ac yn unol â gofynion academaidd cofrestru'n beiriannydd proffesiynol (CEng).
- Elwa ar arbenigedd dylunio ac ymchwil o fri rhyngwladol yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru.
- Rhaglen sy'n rhoi sylfaen ymarferol i broffesiynolion yr amgylchedd adeileddig ym mhwn dylunio amgylcheddol ers 1993.

Bydd myfyrwyr yn dysgu am elfennau ymarferol a damcaniaethol y maes hwn. Ymhlith y pynciau o dan sylw mae:

- Materion cyfredol dylunwyr amgylcheddol a sut y gall materion megis y newid hinsoddol ac ansawdd yr awyr effeithio ar y proffesiynau; ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Safonau amgylcheddol, deddfwriaeth a dulliau dylunio adeiladau sy'n helpu i gyflawni eu nodau.
- Ffyrdd o gyflawni safonau uchel o ran effeithlonrwydd amgylcheddol.
- Materion ehangach a ddylai fod yn hysbys i broffesiynolion yr amgylchedd adeileddig i allu gweithio mewn ffordd gyfannol gynaliadwy.

Rhagor o wybodaeth:

Mae rhagor o wybodaeth megis dewisiadau ynghylch astudio a manylion y modiwlau ar ein gwefan:

www.cardiff.ac.uk/cy/architecture



Strwythur:

Cyflwynir MSc Dylunio Amgylcheddol Adeiladau trwy gyfres o fodiwlau yn y dosbarth, prosiectau a thraethawd hir.

ART022/122 - Y Ddaear a'r Gymdeithas - 10 credyd

ART028/128 - Dylunio Goddefol - 10 credyd

ART032/132 - Cymhwysio Dylunio Amgylcheddol - 10 credyd

ART034/134 - Arferion Dylunio Amgylcheddol - 40 credyd

ART035/135 - Adeiladau Carbon Isel - 10 credyd

ART041/141 - Cysur Hinsawdd ac Ynni - 20 credyd

ART042/142 - Ymchwiliad i'r Amgylchedd Adeileddig - 10 credyd

ART049/149 - Ymchwil i Wyddoniaeth Bensaernïol - 10 credyd

ART099/199 - Traethawd Hir - 60 credyd

MSc Cadwraeth Adeiladau Cynaliadwy

Nod y cwrs hwn ac arno sêl bendith IHBC (Institute of Historic Building Conservation) yw bod yn unigryw ymhlith ysgolion ym Mhrydain trwy gyfuno astudiaethau cadw treftadaeth ag agweddau cynaliadwyedd.

Nod y rhaglen yw:

- Ehangu cyfleoedd gyrfaol trwy alluogi penseiri cymwysedig a myfyrwyr o feysydd arbenigol eraill i feithrin arbenigedd ym maes cadwraeth, gan arwain at achrediad proffesiynol.

Nodweddion y rhaglen:


- Ar gael yn gwrs amser llawn dros flwyddyn neu gwrs rhan-amser dros ddwy flynedd (addas i'r rhai sy'n gweithio).
- Mae'r rhaglen wedi'i hachredu gan IHBC (Institute of Historic Building Conservation). Ar ôl gorffen y cwrs, bydd penseiri cofrestredig RIBA a Bwrdd Cofrestru'r Penseiri yn cael cyflwyno cais am fod yn 'Gofrestrydd Cadwraeth' yn syth. Felly, yn hytrach na gweithio am bum mlynedd cyn cael cyflwyno cais am fod yn 'Bensaer Cadwraeth Arbenigol' ac am dair blynedd yn achos 'Pensaer Cadwraeth', dim ond pedair blynedd a dwy flynedd y bydd eu hangen. Ar ôl cwblhau cwrs achrededig IHBC, bydd modd i ymgeisydd a chanddo gymwysterau addas ennill achrediad cyflawn IHBC cyn pen dwy flynedd yn hytrach na phum mlynedd.
- Bydd myfyrwyr yn ymweld â Rhufain am ddau ddiwrnod i gwrdd â thiwtoriad ail lefel Gradd Ryngwladol Meistr Adfer Pensaernïol a Threftadaeth Ddiwylliannol ym Mhrifysgol Roma TRE. Mae cost y teithio i Rufain, ffioedd mynediad a llety yn rhan o ffi'r cwrs.

- Ychwanegu at arbenigedd cyfredol myfyrwyr a'u paratoi ar gyfer anawsterau proffesiynol trwy feithrin medrau a fydd yn eu galluogi i ymateb yn fanwl ac yn strategol i faterion cymhleth cadwraeth adeiladau yng nghyd-destun cynaliadwyedd.
- Nod y cwrs hwn ac arno sêl bendith IHBC (Institute of Historic Building Conservation) yw bod yn unigryw ymhlith ysgolion ym Mhrydain trwy gyfuno astudiaethau cadw treftadaeth ag agweddau cynaliadwyedd ynghylch cyfrifoldeb am benderfynu'n rhesymegol ar faterion amlochrog cadwraeth.
- Defnyddio dulliau dysgu ailadroddol gan astudio prosiectau blaenorol i allu deall fframweithiau cyfreithiol perthnasol yn eglur.
- Galluogi myfyrwyr i benderfynu'n annibynnol ynghylch pa mor briodol yw ymatebion i amgylchedd yr adeiladau o bwys hanesyddol.

Mae'r rhaglen hon ar gyfer graddedigion sydd wedi astudio mewn maes cysylltiedig megis pensaernïaeth, archaeoleg, hanes, tirlfesur, cynllunio, peirianeg neu adeiladu. Mae croeso i bawb a chanddo brofiad cyfatebol ym meysydd adeiladu neu reoli treftadaeth, hefyd.

Rhagor o wybodaeth:

Dyma fanylion ychwanegol megis trefn y dosbarthiadau, gobeithion gyrfaol, ffioedd a grantiau, meini prawf derbyn a'r staff a fydd yn cynnal y rhaglen:
www.cardiff.ac.uk/cy/architecture



Strwythur:

Cyflwynir cwrs MSc Cadwraeth Adeiladau Cynaliadwy trwy gyfres o fodiwlau yn y dosbarth a thraethawd hir wedyn.

ART501 - Rôl y Cadwraethwr - 20 credyd

ART502 - Offer Dehongli - 20 credyd

ART503 - Defnyddio Ynni mewn Adeiladau Hanesyddol - 20 credyd

ART504 - Astudiaethau Achos a Gwaith Rhanbarthol - 40 credyd

ART505 - Offer Dylunio: Dulliau Atgyweirio - 20 credyd

ART506 - Traethawd hir - 60 credyd

MSc Mega-Adeiladau Cynaliadwy

Hyd at yn ddiweddar, roedd tyb y byddai adeiladau mawr yn defnyddio llawer o ynni ac na fyddai modd cwtdogi arno trwy ddylunio pwrpasol. Mae hynny'n newid, fodd bynnag, yn sgîl to newydd o adeiladau mawr sydd wedi'u dylunio yn ôl egwyddorion effeithlonrwydd ynni a chynaliadwydd.

Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar egwyddorion cynllunio a dylunio adeiladau enfawr yn gynaliadwy, a'i nod yw paratoi myfyrwyr ar gyfer yr heriau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â hynny. Bydd myfyrwyr yn dysgu sut mae ymaddasu yn ôl gofynion cyfnewidiol yn sgîl cefnogaeth gynyddol pobl a llywodraethau dros bolisiau cynaliadwy.



Nodweddion y rhaglen:

- Cwrs amser llawn dros flwyddyn neu gwsr rhan-amser dros ddwy flynedd.
- Mae'r cwrs wedi'i gydnabod gan CTBUH (Council on Tall Buildings and Urban Habitat), Illinois Institute of Technology, Chicago, wedi'i achredu gan Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu (CIBSE) ac yn cyd-fynd â gofynion academiaidd CEng.
- Amryw ymweliadau yn y deyrnas hon a'r tu hwnt i weld adeiladau mawr cynaliadwy ar waith.
- Cyflwyno ac adolygu'r dulliau dylunio diweddaraf ar gyfer adeiladau mawr cynaliadwy ym meysydd penseiri, peirianwyr ac adeiladwyr.
- Cynnig darlithoedd gan arbenigwyr o fri yn y maes ac offer rhifiadol blaengar.



Rhagor o wybodaeth:
www.cardiff.ac.uk/cy/architecture

Strwythur:

Cyflwynir cwrs MSc Mega-adeiladau Cynaliadwy trwy gyfres o fodiwlau yn y dosbarth, prosiectau a thraethawd hir.

- ART022 - Y Ddaear a'r Gymdeithas - 10 credyd
- ART035 - Adeiladau Carbon Isel - 10 credyd
- ART041 - Cysur Hinsoddol ac Ynni - 20 credyd
- ART042 - Ymchwilio i'r Amgylchedd Adeiledig - 10 credyd
- ART049 - Ymchwil i Wyddoniaeth Bensaernïol - 10 credyd
- ART627 - Trosolwg Mega-Adeiladau Cynaliadwy (Hinsawdd, Cyddestun a Diwylliant) - 10 credyd
- ART628 - Systemau Gwasanaethau Cynaliadwy ar gyfer Mega-adeiladau - 20 credyd
- ART631 - Dylunio Mega-adeiladau Cynaliadwy (Modiwl Prosiect) - 30 o gredydau
- ART099 - Traethawd Hir - 60 credyd



Dip.Ôl-radd Pensaernïaeth Ymarfer Proffesiynol

Yn y rhaglen hon, bydd myfyrwyr yn meithrin dealltwriaeth drylwyr o agweddau cyfreithiol ac economaidd ymarfer pensaernïol a chaffael ym maes adeiladu yn ogystal â meithrin medrau y bydd eu hangen ar bensaer i weithredu'n effeithiol.

Diben y rhaglen yw cynnig cyfle i ennill y cymhwyster terfynol cyn cofrestru'n bensaer yn y deyrnas hon.

Mae'n rhaglen i'w hastudio tra bo myfyriwr yn gweithio'n amser llawn dros gwmni pensaernïol neu sefydliad cysylltiedig ym maes adeiladu.

Mae'n gyfuniad o ddysgu ar y we a chysiau byrion ategol yng Nghaerdydd. Mae trefniadau astudio o hirbell ar y gweill - cysylltwch ag Arweinydd y Rhaglen i ofyn am ragor o fanylion.

Enillodd cwrs 2016/17 y diploma hwn glod rhai o fyrdau ymweld Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) yn olynol am ei 'ehangder, ei ddyfnder a'i gywirdeb.'

Nodweddion y rhaglen:

- Ar gael trwy lwybr carlam (wyth mis) neu gwrs rhan-amser dros ddwy flynedd.
- Sêl bendith Bwrdd Cofrestru'r Penseiri o ran cofrestru'n bensaer a chadarnhad Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) ei fod yn gyfwerth a'i Arholiad Ymarfer Proffesiynol (Rhan 3).
- O dan adain yr Athro Sarah Lupton, awdur blaenllaw ac arbenigwr yn y maes.
- Dysgu o hirbell a chysiau byrion, gan gynnig y cyfle i astudio wrth weithio yn y maes.
- Carfannau bychain a thiwora unigol.
- Amrywiaeth helaeth o bynciau a siaradwyr arbenigol.
- Asesu trwy amryw aseiniadau ysgrifenedig; does dim arholiadau.
- Cymorth rhwydwaith bywiog o hen fyfyrwyr.



Rhagor o wybodaeth:

Dyma fanylion ychwanegol megis trefn y dosbarthiadau, gobeithion gyrfaol, ffioedd a grantiau, meini prawf derbyn a'r staff a fydd yn cynnal y rhaglen:

www.cardiff.ac.uk/cy/architecture

Cewch chi anfon ymholiadau at Arweinydd y Rhaglen, hefyd: lupton@caerdydd.ac.uk



Strwythur:

ART207 - Cyd-destun y diwydiant - 20 credyd

ART208 - Contractau adeiladu - 20 credyd

ART209 - Gwasanaethau Proffesiynol
- 20 credyd

ART210 - Ymarfer proffesiynol - 60 credyd

Graddau Ymchwil Ôl-raddedig

Mae'n rhaglenni ymchwil MPhil a PhD i ôl-raddedigion yn cynnig cyfle i fyfyrwyr gydweithio'n agos ag academyddion sy'n ymwneud â'u maes nhw. Bydd myfyrwyr yn rhan o'n grwpiau ymchwil fel y gallan nhw fanteisio ar gymaint o arbenigedd ag y bo modd a meithrin perthynas gydweithio ag ymchwilwyr eraill.

Mae'r Ysgol yn croesawu diddordeb gan bob math o ddarpar ymchwilwyr ôl-raddedig ac yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau a chymorth.

Nod gradd ymchwil ôl-raddedig yw creu darn mawr o waith. Traethawd ymchwil fydd hwnnw fel arfer - gall gynnwys cyfuniad o ysgrifennu a dylunio, a rhaid cynnwys dulliau a chanlyniadau ymchwil drefnus. Yn achos gradd PhD, rhaid i'r gwaith fod yn gyfraniad gwreiddiol at wybodaeth yn y maes o dan sylw.

Mae gradd ymchwil yn cadarnhau bod ei deiliad wedi meithrin arbenigedd wrth lunio a defnyddio dulliau ymchwil priodol a dod i gasgliadau yn sgîl y canlyniadau. Mae'n hyfforddiant ardderchog i'r rhai a hoffai yrfa'n ymchwilydd ym maes addysg uwch, y byd diwydiannol neu gwmni ymgynghorol. Caiff ymgeiswyr astudio ar gyfer MPhil neu PhD trwy drefniadau amser llawn neu ran-amser.



Mae cyfleusterau'r Ysgol ar gael i fyfyrwyr ym mhob rhaglen. Er enghraifft: ystafell TG ar gyfer dysgu dylunio gyda chymorth cyfrifiadur a delweddu uwch, gweithdy ac ynddo'r offer a'r arbenigedd hanfodol i lunio modelau ynghyd â chaban chwistrellu, cyfleuster profi modelau, torrwr laser, argraffydd tri dimensiwn a llwybrydd CNC.

Adlunio Adeilad Bute

Mae creu wrth galon yr Ysgol ac rydyn ni wrthi'n cau pen y mwdwl ar broses adnewyddu ein cartref hyfryd, Adeilad Bute ac iddo statws rhestredig Gradd II, i ymgorffori ystod eang o'r cyfleusterau diweddaraf. Er enghraifft: ystafell llunio crefft a digidol ac ynddi fraich robotaid i fyfyrwyr sy'n ymwneud â dulliau saernïo cymhleth, stiwdios dylunio newydd sbon sy'n rhoi rhagor o le i gydweithio ynghyd â stiwdio Hybrid a Labordy Byw.


Bydd Adeilad Bute ar ei newydd wedd yn rhoi lle penodol i ôl-raddedigion megis ystafelloedd wedi'u hadnewyddu ac awditoriwm newydd ar gyfer sumposia a chynadleddau yn ogystal â mannau ymlacio a fydd o gymorth ynghylch gweithgareddau anffurfiol a chymdeithasol.



Ein cyfleusterau

Mae Ysgol Pensaernïaeth Cymru yn Adeilad Bute, ymhlith parciau a mannau glas ger canol y ddinas.

Yn yr adeilad hwnnw y mae'r rhan fwyaf o'n cyfleusterau megis theatrau darlithio, orielau arddangosfa, stiwdios a mannau addysgu eraill.



Caerdydd: prifddinas

Dynamig. Cyfeillgar. Fforddiadwy.

A hithau'n ddynamig, cyfoes a hawdd mynd o'i chwmpas, mae ein dinas yn lle rhagorol i fyw, gweithio ac astudio ynddo. Mae Caerdydd yn llawn cymeriad, treftadaeth ac uchelgais, ac mae'n cynnig y gorau o ddau fyd: mae'n cyfuno holl fanteision lleoliad bach a diogel sy'n gyfeillgar i'ch cyllideb â'r cyfleusterau diwylliannol a hamdden y byddech chi'n eu disgwyl gan brifddinas fodern.

Mae'r miloedd o fyfyrwyr sy'n dewis gwneud Caerdydd yn gartref iddynt bob blwyddyn yn rhan o guriad calon y ddinas, gan wella ei diwylliant cyfoethog ac amrywiol. Cyfeillgar, croesawgar a chynhwysol - mae Caerdydd yn brifddinas sydd â theimlad cymunedol. Ni waeth pwy ydych chi, gallwch fod yn chi eich hun yma.

“Mae dinas fywiog Caerdydd wedi esblygu'n rhyfeddol o dref fawr i ddinas wirioneddol ryngwladol, gyda datblygiadau enfawr yng nghanol y ddinas yn ogystal â' i glannau sydd wedi'u hadfywio. Gydag enw am fod yn lle i loddesta, ynghyd â llawer o atyniadau chwaraeon a diwylliannol o'r radd flaenaf, mae'n un o gyrchfannau mwyaf deniadol y DU.”

ROUGH GUIDES, 2020



Pam Prifysgol Caerdydd?

Ymchwil o safon fyd-eang

Mae Caerdydd ymhlith haen uchaf prifysgolion ymchwil. Prydain ac yn aelod o Grŵp Russell, grŵp o brifysgolion sy'n uchel eu bri. Rydym yn ail yn genedlaethol am effaith ymchwil, ac ymysg y 5 uchaf am ragoriaeth ymchwil yn y DU.

(REF 2014)

Rhagoriaeth addysgu

Mae gennym hanes hir o addysgu rhagorol sy'n seiliedig ar ymchwil ac rydym ymhlith y 40 o'r prifysgolion gorau am ragoriaeth addysgu.

(Times Higher Education World University Rankings 2022).

Top 3 Students' Union

Our award-winning Students' Union is consistently voted amongst the best in the UK, achieving Top 3 status in the 2020 *WhatUni Student Choice Awards*.

98% o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedi a 15% o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir mewn cyflogaeth hynod fedrus, 15 mis ar ôl graddio.

(HESA Graduate Outcomes Survey 2021)

Dyfarnwyd **Saith** Gwobr Pen-blwydd y Frenhines i ni, sy'n cydnabod rhagoriaeth o'r radd flaenaf mewn. Addysg Uwch yn y DU. Rydym hefyd yn gartref i garfan fawr o staff nodedig, gan gynnwys dau enillydd Gwobrau Nobel ac 13 Cymrawd y Gymdeithas Frenhinol.

Cymuned ryngwladol

Gyda mwy na **8,500** o fyfyrwyr rhyngwladol o fwy na 130 o wledydd, byddwch yn rhan o gymuned fywiog sy'n dathlu ei diwylliant amrywiol.



Meini prawf derbyn

Rhaglenni ôl-raddedig a addysgir

Mae meini prawf ar gyfer derbyn yn amrywio ar draws ein rhaglenni. I weld fanylion, dylai ymgeiswyr ddarllen:

- Prosiectws Ôl-raddedigion Prifysgol Caerdydd 2019:
www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate
- Rhestr Ysgol Pensaernïaeth Cymru o raglenni a disgrifwyr:
www.cardiff.ac.uk/cy/architecture

Dylai myfyrwyr rhyngwladol ddarllen y tudalennau ar gyfer eu gwlad ar wefan y Brifysgol i weld rhagor am raddau cyfatebol:

www.cardiff.ac.uk/cy/study/international

Rhaid i ymgeiswyr nad yw'r Saesneg yn famiaith iddyn nhw ateb gofynion y Brifysgol ynghylch y Saesneg. 6.5 yn ôl graddfa IELTS yw ein sgôr sylfaenol ar hyn o bryd. Dyma ragor am ein gofynion ynghylch y Saesneg ynghyd â phroffion a sgoriau cyfatebol:

www.cardiff.ac.uk/cy/study/international

Rhaid i ymgeiswyr y bydd angen teitheb Haen 4 arnyn nhw i astudio yma gyflwyno cymhwyster derbyniol yn y Saesneg yn ôl gofynion UKVI (Teithebau a Mewnudo'r Deyrnas Gyfunol).

I gyflwyno cais am un o'n rhaglenni, dylech chi ddefnyddio Gwasanaeth Ceisiadau Ar-lein y Brifysgol a fydd yn eich tywys trwy'r broses:
www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate/applying

O ran unrhyw ymholiadau am ein cyrsiau yn y dosbarth i ôl-raddedigion, darllenwch ein gwefan neu gysylltu â'n Swyddog dros Ôl-raddedigion a fydd yn barod iawn ei gymorth.

ArchitectureAdmissions@caerdydd.ac.uk
Ffôn: +44 (0)29 2087 4430

Rhaglenni Ymchwil Ôl-raddedig (PhD/MPhil)

Croesawn ymholiadau a cheisiadau gan bawb a chanddo gymwysterau addas – rhai sydd wedi ennill gradd gyntaf dda (2:1 neu gyfwerth fel arfer) ac a hoffai gynnal ymchwil ar draws ystod eang o bynciau a dulliau ym maes pensaernïaeth a'r amgylchedd adeiledig wrth astudio ar gyfer gradd uwch.

Ein nod yw cefnogi diwylliant ymchwil traws-ddisgyblaethol ymresymiadol a bywiog yn yr Ysgol - mae dros 65 o ymgeiswyr doethurol o dan adain 29 o oruchwylywyr academiaidd ar hyn o bryd. Mae'r amrywiaeth eang o bynciau y bydd ein myfyrwyr yn eu hastudio yn adlewyrchu diddordebau amryfal ein staff.

I ymgeisio am gwrs gradd ymchwil, mae'n hanfodol amlinellu pwnc neu faes sydd o ddiddordeb ichi mewn cynnig ymchwil. Mae modd cyflwyno ceisiadau unrhyw adeg o'r flwyddyn ac, os yw wedi'i dderbyn, caiff myfyriwr ddechrau astudio ar ddiwrnod cyntaf mis Hydref neu fis Ebrill.

Byddwn ni'n ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau unigol. Anogir ymgeiswyr i roi cymaint o wybodaeth a dogfennau ategol ag y bo modd (lle y gofynnir amdanyn nhw) am eu hanes academiaidd, eu profiad o waith perthnasol a'u cymorth ariannol.

Dylai myfyrwyr rhyngwladol ddarllen y tudalennau ar gyfer eu gwlad ar wefan y Brifysgol i weld rhagor am raddau cyfatebol:
www.cardiff.ac.uk/cy/study/international

Rhaid i ymgeiswyr nad yw'r Saesneg yn famiaith iddyn nhw ateb gofynion y Brifysgol ynghylch y Saesneg. 6.5 yn ôl graddfa IELTS yw ein sgôr sylfaenol ar hyn o bryd.

Mae rhagor am ein gofynion o ran y Saesneg, ynghyd â phroffion a sgorau cyfatebol, ar:
www.cardiff.ac.uk/cy/study/international/english-language-requirements

Dylech chi ymgeisio trwy Wasanaeth Ceisiadau Ar-lein y Brifysgol a fydd yn eich tywys trwy'r broses. Dyma linc â'r gwasanaeth hwnnw ynghyd â chanllawiau bras ar ofynion medru'r Saesneg:
www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate/applying

O ran unrhyw ymholiadau am ein rhaglenni ymchwil i ôl-raddedigion, darllenwch ein gwefan neu gysylltu â'n Swyddog dros Ôl-raddedigion a fydd yn barod iawn ei gymorth.

Katrina Lewis
Ebost: LewisK2@caerdydd.ac.uk
Ffôn: +44 (0)29 2087 6251



Cyfleoedd Cyfartal

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb yn ei holl arferion a gweithgareddau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â denu, dethol a derbyn myfyrwyr.

Nod y Brifysgol yw bod yn sefydliad cynhwysol sy'n croesawu ymgeiswyr o bob oed, cefndir cenedlig, anabledd, trefn deuluol, rhywedd, cenedligrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd a chred, ac o bob cefndir economaidd-gymdeithasol.

Mae'r ymrwymiad hwnnw'n rhan o'r Polisi dros Gydraddoldeb ac Amrywioldeb:

www.cardiff.ac.uk/cy/public-information

Ymgeiswyr ac arnyn nhw anableddau neu anghenion arbennig

Dim ond yn ôl meini prawf academiaidd y bydd Prifysgol Caerdydd yn rhoi cynnig i astudio yma.

Pan fydd anghenion penodol ar ymgeiswyr o ganlyniad i anabledd neu gyflwr meddygol, fe'u hanogir i'w trafod gyda'r staff perthnasol fel y gall y Brifysgol drefnu'n briodol i safleoedd fod yn hygyrch. Yn benodol, gwahoddir ymgeiswyr i gysylltu â'r Ymgynghorydd dros Anableddau a'i holi am drefn yr ymgeisio, trefniadau cyflwyno'r cyrsiau a mynediad i'r safleoedd a'r adeiladau. Lle bo'n briodol, gallwn ni drefnu ymweliadau anffurfiol i roi cyfle i ymgeiswyr weld y llety a chwrdd â'r staff academiaidd.

I ofyn am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ymgynghorydd dros Anableddau:

Ffôn: +44 (0)29 2087 4844

Ebost: disability@caerdydd.ac.uk

Ariannu'ch astudiaethau

Mae cymorth ariannol yn ystyriaeth bwysig i lawer o ôl-raddedigion. Mae cryn dipyn o gystadlu am y rhan fwyaf o gymorthdaliadau ac, felly, mae'n hanfodol rhoi sylw i'r dewisiadau cyn gynted ag y bo modd.

Dyma'r wybodaeth ddiweddaraf am ffioedd, ariannu a chyfleoedd i ennill ysgoloriaeth ar wefan y Brifysgol:

www.caerdydd.ac.uk/cy/study/postgraduate

Mae'r ysgoloriaethau sydd ar gael i fyfyrwyr rhyngwladol ôl-raddedig a addysgir ar hyn o bryd yn cynnwys Ysgoloriaethau Santander Prifysgol Caerdydd, Ysgoloriaethau Chevening ac Ysgoloriaethau Fulbright Prifysgol Caerdydd: www.cardiff.ac.uk/cy/study/international/funding-and-fees/international-scholarships

Dyma wybodaeth am ffioedd i fyfyrwyr brodorol a rhyngwladol ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig ar wefan y Brifysgol:

www.caerdydd.ac.uk/cy/study/postgraduate

Telerau ac amodau

Mae pob ymdrech wedi'i gwneud i ofalu bod yr wybodaeth sydd yn y llyfryn hwn yn gywir adeg ei argraffu. All y Brifysgol ddim derbyn unrhyw gyfrifoldeb am wallau a allai fod ynddo, fodd bynnag, nac am unrhyw newidiadau wedyn ym mholisiau'r Brifysgol neu'r wladwriaeth a allai effeithio ar yr wybodaeth sydd wedi'i rhoi. Mae Prifysgol Caerdydd yn eithrio'n benodol unrhyw sylwadau neu warantau (boed wedi'u mynegi neu eu hawgrymu), yn ogystal â phob atebolrwydd megis niwed uniongyrchol, anuniongyrchol, arbennig, cysylltiedig neu ganlyniadol yn sgîl defnyddio'r wybodaeth sydd ar y tudalennau hyn, gymaint ag y bo modd yn ôl y gyfraith.

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1136855.

Tystysgrif FSC



Rydyn ni wedi argraffu'r llyfryn hwn ar bapur o ffynonellau a reolir yn gynaliadwy a defnyddio inciau a ddaeth o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r llyfryn hwn, a'r broses weithgynhyrchu, ill dau wedi'u hardystio gan yr FSC®. Mae'r argraffwyr wedi'u hachredu yn ôl safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Ar ôl defnyddio'r llyfryn hwn, gallwch chi ei ailgylchu, ei roi i ffrind neu ei adael yn llyfrgell y gyrfaedd er gwybodaeth i fyfyrwyr eraill. Diolch yn fawr.

Gallwn ni gynnig y ddogfen hon ar ffurf print bras (testun), Braille neu dâp sain/disgen hefyd.

I ofyn am gopi ar fformat arall, cysylltwch â:

Laura Roberts

Ffôn: + 44 (0)29 2087 4455

ebost: RobertsL9@caerdydd.ac.uk

Mae rhagor o wybodaeth am Ysgol Pensaernïaeth Cymru ar ein gwefan:

Ymholiadau

Ffôn: +44 (0)29 2087 4023

Ebost: Architectadmissions@caerdydd.ac.uk

Ysgol Pensaernïaeth Cymru

Prifysgol Caerdydd

Adeilad Bute

Rhodfa'r Brenin Edward VII

Caerdydd CF10 3NB

Cadw mewn cysylltiad

/welshschoolofarchitecture

@WSofArchi

